

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU AMGYLCHEDDOL A
GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DYDD LLUN,
22 GORFFENNAF 2019**

AELODAU

Y Cynghorydd T Alan Edwards, Cadeirydd
Y Cynghorydd I David Bithell, MBE, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Brian Cameron	Y Cynghorydd	M G Morris
"	Krista Childs	"	Beverley Parry-Jones
"	* Gwenfair Jones	"	Paul Pemberton
"	Geoff Lowe	"	* John Phillips
"	* David Maddocks	"	Robert Walsh
"	Tina Mannering	"	Derek Wright

*Yn absennol

12 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriad ar ran y Cynghorydd John Phillips am ei fod yn absennol.

13 CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD – cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019 fel cofnod cywir a'u llofnodi.

Cofnod 4 – Penderfyniadau Anodd – y Wybodaeth Ddiweddaraf

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r dewisiadau i'r dyfodol o ran profion MOT ar gerbydau hurio preifat, wedi i'r Cyngor roi'r gorau i ddarparu profion MOT fel rhan o'r drefn Penderfyniadau Anodd wrth lunio'r gyllideb. Cadarnhaodd y swyddogion y cynhelid trefn gaffael cyn gynted â phosib. Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â'r cynnig unwaith eto, yn ogystal â'r diffyg ymgynghori â'r pwyllgor, a gofynnont am gadarnhad o ran pwy a benderfynodd a pha bryd.

PENDERFYNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol Lle – yr Amgylchedd a Chludiant i fynegi pryderon y Pwyllgor ynglŷn â rhoi'r gorau i ddarparu profion MOT ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat yn nepo'r Cyngor.

14 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Eitemau 6 i 11 ar y Rhaglen: Penderfynodd yr Aelodau, wrth ystyried yr adroddiadau hyn, y dylid gweithredu paragraff 12. Eu barn o ran prawf lles y cyhoedd oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu data personol yn ymwneud ag unigolyn, ac yn groes i egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Oherwydd hyn a gan nad oedd yn ymddangos bod lles cyhoeddus ysgubol o blaid datgelu data personol, teimlant fod lles y cyhoedd o ran cadw'r eithriad yn drech na lles y

cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

PENDERFYNWYD - Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r Cyfarfod tra roedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol, pe baent yn bresennol, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

15 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/29/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Hurio Preifat fel yr amlinellir yn adroddiad COPR/29/19 a bod y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i ddatgan pryder y Pwyllgor o ran ei euogfarn ddiweddar ac yn rhoi rhybudd llym ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

16 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/31/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol ac nad oedd wedi rhoi unrhyw reswm dros beidio â dod i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD – Gohirio ystyried adroddiad COPR/31/19 tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle arall i'r ymgeisydd fod yn bresennol.

17 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/32/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/32/19.

18 YMDDYGIAD GYRRWR HURIO PREIFAT

Hysbyswyd yr Aelodau bod adroddiad COPR/30/19 wedi ei dynnu'n ôl o'r rhaglen gan fod y Gyrrwr Hurio Preifat dan sylw wedi ildio ei drwydded.

19 CAIS TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/37/19) i ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbydau Hurio Preifat. Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat fel yr amlinellwyd yn adroddiad COPR/37/19.

20 YMDDYGIAD GYRRWR HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynllunio a Rheoleiddio adroddiad (COPR/28/19) i ystyried ymddygiad Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat. Bu'r Aelodau'n ystyried yr adroddiad a sylwadau'r ymgeisydd.

PENDERFYNWYD – Atal trwydded y Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat dan sylw yn adroddiad COPR/28/19 am gyfnod o 7 niwrnod dan Adran 61(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 oherwydd ei euogfarn ddiweddar.

21 UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD YN PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYD

Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid ymdrin â'r mater canlynol fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y ffaith y byddai oedi diangen pe câi'r cais ei ohirio tan y cyfarfod nesaf.

(i) Trosedd Moduro C80 – Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd.

Nodwyd fod y drosedd moduro C80 – defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd – yn un a ystyrid yn drosedd moduro ddifrifol a allai arwain at ddyfarnu chwe phwynt cosb. Ar sail hyn, gofynnodd yr aelodau am ddiwygio'r Polisi Trwyddedu Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni – Meini Prawf Addaswydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr. Gofynnwyd i'r Swyddogion ysgrifennu at Weithredwyr i bwysleisio mor ddifrifol oedd y drosedd dan sylw ym marn y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD –

- (i) Diwygio'r Polisi Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni – Meini Prawf Addaswydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr er mwyn adlewyrchu'r gosb bresennol am C80 – Defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd.**
- (ii) Bod Swyddogion yn ysgrifennu at Weithredwyr i bwysleisio mor ddifrifol ym marn y Pwyllgor yw'r drosedd C80 – defnyddio ffôn symudol wrth yrru cerbyd.**

Y Cynghorydd T Alan Edwards
Cadeirydd